# JONES, ROBERT LLOYD (1878 - 1959), ysgolfeistr, llenor plant a dramodydd

**Enw:** Robert Lloyd Jones
**Dyddiad geni:** 1878
**Dyddiad marw:** 1959
**Priod:** Sarah Jones (née Roberts)
**Priod:** Elin Alice Jones (née Jones)
**Rhiant:** Elizabeth Jones (née Williams)
**Rhiant:** Robert Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolfeistr, llenor plant a dramodydd
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Arwyn Lloyd Hughes

Ganwyd 7 Rhagfyr 1878 ym Mhorthmadog, Caernarfon, y chweched o'r deg plentyn a aned i Robert Jones, master mariner, a'i wraig Elizabeth (ganwyd Williams). Addysgwyd ef yn ysgolion elfennol Porthmadog, Minffordd a Phenrhyndeudraeth, ysgol uwchradd Blaenau Ffestiniog, ysgol ramadeg y Bala a'r Coleg Normal, Bangor (1899-1901). Bu'n athro yn ei hen ysgol ym Mhorthmadog i ddechrau ac wedyn daeth yn brifathro yn olynol ar ysgolion elfennol Tremadog (1906-13), Trefor (1913-28) a Lloyd Street, Llandudno (1928-44). Cymerodd ddiddordeb dwfn mewn materion addysgol ar hyd ei oes a daliodd nifer o swyddi yn y gangen sirol o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon. Bu'n aelod am nifer o flynyddoedd o fwrdd llywodraethwyr ysgol John Bright, Llandudno.

Cychwynnodd lenydda 'n gynnar gan ennill llawer mewn eisteddfodau lleol a chymaint â 13 o wobrwyon yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cofir amdano'n bennaf fel awdur y nofelau antur canlynol i blant: *Ynys y trysor* (1925); *Plant y Fron* (1926); *Atgofion hen forwr* (1926); *Capten* (1928); *Mêt y Mona* (1929); *Dirgelwch y cwm* (1929); *Ogof yr ysbïwyr* (1933) ac *Ym Môr y De* (1936). Dysgodd lawer am fywyd morwrol oddi wrth ei dad a threuliodd lawer o'i blentyndod ar gei Porthmadog yn gwylio'r llongau a holi'r morwyr. Darllenodd yn awchus weithiau R. L. Stevenson, Ballantyne, Henty ac eraill a daeth hyn oll yn ddeunydd crai i'w nofelau yntau maes o law. Cyfrannodd hefyd i *Cymru'r Plant* a chyhoeddiadau enwadol megis *Y Drysorfa* a'r *Goleuad*. Ar y pryd llanwodd ei nofelau a'i storïau fwlch mawr ym myd ysgrifennu yn Gymraeg ar gyfer plant. Cyhoeddodd yn ogystal 24 o ddramâu poblogaidd, y mwyafrif ohonynt yn rhai byr, un-act yn dwyn y teitlau canlynol: *Y pymtheg mil*, *Y walet*, *Y census*, *Nos Sadwrn*, *Y doctor*, *Yr etifedd*, *Y basgedi*, *Dau ben blwydd*, *Wyt ti'n cofio?*, *Arian modryb*, *Y troseddwr*, *Anghofio*, *Brawd a chwaer*, *Croeso*, *Y drws agored*, *Gweinidog Tabor*, *Y gwir a'r golau*, *Pan oeddym fechgyn*, *Rhiannon*, *Safle*, *Y Scwlmis*, *Santa Clòs a'i fab*, *Y tair chwaer*, *Teulu'r Gelli*. Ef oedd yn bennaf gyfrifol am ffurfio Cymdeithas Ddrama'r gogledd, a oedd i ffynnu fel cangen o Undeb y Ddrama Gymraeg, yng Nghaernarfon yn 1929. Gwasanaethodd droeon fel beirniad yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Priododd ddwywaith: (1) yn 1906 ag Elin Alice Jones, Minffordd (bu farw 1942), a ganed tri mab iddynt; (2) yn 1944 â Sarah Roberts, Bethesda (bu farw 1962). Bu farw yn Nhre-garth 3 Chwefror 1959 a chladdwyd ef ym mynwent Coetmor, Bethesda.

## Awdur

**Arwyn Lloyd Hughes**

## Ffynonellau


Gwybodaeth gan ei frodyr, y diweddar William a Goronwy Jones

*Lleufer*, 20 (1964), 27-30

Mairwen a Gwynn Jones, *Dewiniaid Difyr* (Llandysul 1983)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Lloyd Jones

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76102198

Wikidata: Q20567285


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu